CAMPAIGN for SOCIAL SCIENCE

Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Llwybrau addysgol plant sydd â phrofiad o ofal

Emily Lowthian, Prifysgol Abertawe: e.m.lowthian@abertawe.ac.uk

## Trosolwg

Mae nifer y plant sydd mewn gofal yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n gyson ers 2014, gyda thua 1% o boblogaeth plant nawr yn y system ofal. Dengys tystiolaeth fod plant sydd â phrofiad o ofal yn wynebu canlyniadau iechyd ac addysgol sylweddol gwaeth, hyd yn oed pan oedd eu hamser mewn gofal yn fyr neu'n fuan yn eu bywydau. Mae ymchwil yng Nghymru'n amlygu bwlch o 27% o bwyntiau rhwng cyrhaeddiad addysgol plant saith mlwydd oed sydd â phrofiad o ofal a'u cyfoedion, sy'n datgelu pa mor fuan mae'r anghysondebau hyn yn dod i'r amlwg, a sut maen nhw'n ehangu dros amser. Er gwaethaf hyn, yn aml mae diffyg manylder mewn ymchwil bresennol sydd ei angen i ddylanwadu ar bolisi yn effeithiol. Mae profiadau plant mewn gofal yn amrywio'n eang yn ôl y math o leoliad, oed mynd i ofal, a hyd, â phob un o'r rhain yn cael effaith ar ganlyniadau addysgol mewn ffyrdd cymhleth. Mae'r brîf hwn yn cyflwyno gwybodaeth newydd, sydd wedi'i theilwra, am lwybrau addysgol grwpiau gwahanol o blant sydd â phrofiad o ofal, gan gynnig argymhellion ar sail tystiolaeth i lunwyr polisi wella cyfleoedd bywyd i rai o bobl ifanc fwyaf bregus Cymru.

## Cyd-destun y Polisi

Nododd strategaeth 2016, *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal*, eiliad hollbwysig mewn cydnabod y rhwystrau systemig mae plant sydd â phrofiad o ofal yn eu hwynebu, a'r angen am gydweithrediad cryfach rhwng y gwasanaethau addysg a gofal cymdeithasol. Mewn ymateb, cafodd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ei greu a arweiniodd at ddatblygu Model Ysgol Rithwir Cymraeg, sy'n cynnwys Penaethiaid Ysgol Rhithwir (VSH). Mae Pennaeth Ysgol Rithwir (VSH) yn aelod o staff addysgol sy'n gweithio ar lefel strategol mewn awdurdod lleol unigol i gefnogi canlyniadau addysgol plant mewn gofal.

Er bod y Model Ysgol Rithwir yn ofyniad statudol yn Lloegr ac yn arfer mabwysiedig yn yr Alban – a'r ddwy'n darparu tystiolaeth o effaith gadarnhaol- mae ei weithrediad yng Nghymru'n parhau'n anghyson. Mae'r strwythur yn ddarniog ac mae gan rai awdurdodau lleol LACE (Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal) ac mae gan lond llaw o awdurdodau lleol VSH. Er bod y rolau'n gorgyffwrdd, fel arfer mae gan VHS gefndir addysg ffurfiol a mwy o bŵer a statws, sy'n galluogi eiriolaeth fwy effeithiol mewn ysgolion a chymorth cryfach i'r gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio yn y system addysg. Er gwaethaf yr Adroddiad Etifeddiaeth yn 2021 ac ymchwil gan IFF, mae'r system yn parhau'n ddarniog ac mae diffyg gwerthusiad cynhwysfawr bedair blynedd yn ddiweddarach. Ochr yn ochr â LACE a VHS, cafodd y Siarter Rhiant Corfforaethol ei chreu i nodi bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol a moesol i gadw plant mewn gofal yn ddiogel, sicrhau eu bod yn cael profiadau cadarnhaol a bod ganddynt fynediad at gyfleoedd i lwyddo. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn arwydd o ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru i godi dyheadau a sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu cefnogi i ffynnu'n academaidd.

## Canfyddiadau allweddol

Gwnaeth ein hastudiaeth ddadansoddi data ar yr holl blant a oedd wedi'u geni yng Nghymru rhwng 2000-2003, gan olrhain eu canlyniadau a phrofiadau addysgol hyd at 16 mlwydd oed. Drwy gynnwys y math o

leoliad, oed a hyd y gofal, gwnaethom greu hanes gofal manwl yn ogystal ag archwilio cyrhaeddiad plant 7, 11, ac 16 mlwydd oed.

Yn 7 oed, roedd plant mabwysiedig yn bodloni’r disgwyliadau cenedlaethol, er bod plant mewn trefniadau gofal eraill- megis gofal gan berthnasau, lleoliadau cymysg, neu'r rhai hynny sy'n dychwelyd adref- 15 i 23 o bwyntiau canran yn is na'r boblogaeth gyffredinol (80%). Roedd plant sy'n mynd i ofal maeth cyn dechrau ysgol 41 o bwyntiau canran yn is, sy'n amlygu maes pryder argyfyngus.

Erbyn 11 oed, roedd y cyrhaeddiad yn lleihau ar draws yr holl grwpiau â phrofiad o ofal. Er bod plant mabwysiedig yn parhau fel y grŵp sy'n perfformio orau, roeddent 20 o bwyntiau canran yn is na'u cyfoedion o hyd. Roedd plant â phrofiadau gofal buan, byr dymor, a oedd wedi dychwelyd adref, 28 pwynt yn is, ac roedd grwpiau eraill- gan gynnwys y rhai hynny mewn gofal gan berthnasau, gofal maeth neu ofal rhieni- wedi cyflawni tua hanner y cyfartaledd cenedlaethol. Y rhai mwyaf bregus oedd y plant a oedd yn mynd i ofal yn 8 mlwydd oed, a oedd bron 50% o bwyntiau y tu ôl.

Mae profiadau ysgol yn cymhlethu'r anghyfiawnderau hyn yn fwy: roedd plant sydd â phrofiad o ofal yn llawer mwy tebygol o gael eu hatal dros dro neu eu gwahardd (35%), yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (50%), ac i symud ysgol (25%). Yn hanfodol, mae'r ffactorau hyn yn helpu i esbonio'r cyswllt parhaus rhwng profiadau gofal buan, tymor byr a chyrhaeddiad TGAU is, sy'n amlygu'r angen am gymorth sydd wedi'i dargedu ac ymyrraeth gynnar.

## Argymhellion

Mae ein canfyddiadau'n bryder i lunwyr polisi ond yn darparu cyfleoedd i gefnogi plant a phobl ifanc drwy ymagwedd deilwredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn amlygu pum argymhelliad:

1) Ehangu Model Ysgol Rithwir Cymru ar gyfer mwy o awdurdodau lleol. Byddai ardaloedd sydd â niferoedd uchel o blant mewn gofal yn elwa o arweinyddiaeth strategol VSH, sy’n gallu tywys gweithwyr cymdeithasol, eirioli mewn ysgolion, a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda lles gorau'r plentyn mewn golwg.
2) Rhoi diwedd ar gyfnodau atal neu wahardd ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal. Hyrwyddo trefniadau symud wedi'u rheoli sy'n cynnwys y plentyn a'i ofalwr mewn proses ar y cyd sy'n blaenoriaethu sefydlogrwydd a lles.
3) Gwella rhannu data rhwng y sefydliad addysg a gofal cymdeithasol i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol pan fo gan blentyn brofiad o ofal, fel nad oes angen i blant rannu hanes sensitif dro ar ôl tro.
4) Ehangu cydnabyddiaeth i gynnwys yr holl blant sydd â phrofiad o ofal- nid y rhai hynny sydd mewn gofal ar hyn o bryd yn unig – fel y gall pob dysgwr bregus gael y sylw a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i lwyddo.
5) Datblygu a gweithredu strategaeth genedlaethol newydd sy'n canolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol a phrofiadau plant sydd â phrofiad o ofal, gan adeiladu ar sylfeini Adroddiad Etifeddiaeth 2021.